YMDDIRIEDOLAETH GOFALWYR
Gogledd Cymru
Gwasanaethau Gofal Croesffyrdd

CARERS TRUST
North Wales
Crossroads Care Services

# ADRODDIAD BLYNYDDOL 2022-23

FOR CARERS AND THE PEOPLE THEY SUPPORT

YN DARPARU GWASANAETHAU YM:

MÔN
CEREDIGION
CONWY
SIR DDINBYCH
SIR Y FFLINT
GWYNEDD
WRECSAM

Parc Menter Quinton Hazell
Ffordd Glan y Wern, Bae Colwyn,
Conwy, LL28 5BS

Rhif Elusen Gofrestredig: 1119142
Rhif Cofrestru'r Cwmni: 6205600
Rhif Cofrestru AGC: WO30001450

## NEGESEUON GAN Y CADEIRYDD A'R PRIF SWYDDOG GWEITHREDOL

### RITA JONES - CADEIRYDD (2014-presennol)



Mae 2022-23 wedi bod yn flwyddyn hynod o brysur o ran datblygu'r gwasanaeth, ac mae'n bleser gen i ddweud mai darparu cymorth angenrheidiol iawn i ofalwyr yw ein prif ffocws o hyd. Mae ein hamrywiaeth o wasanaethau wedi ehangu dros y blynyddoedd diwethaf, ond mae ein gwasanaeth craidd o roi gofal amgen yn cynnig y cymorth ymarferol ac emosiynol mwyaf gwerthfawr i'r gofalwyr hynny sydd â'r cyfrifoldebau gofalu trymaf. Gallwch chi weld tystiolaeth eglur o hyn yn adborth ein cwsmeriaid ar ddiwedd yr adroddiad hwn, a dyna pam rydym yn dal i ymdrechu i gymryd y neges hon at y comisiynwyr.

Hoffwn ddiolch i'r Bwrdd Ymddiriedolwyr am ymrwymo eu hamser mor barod unwaith eto eleni i dywys Ymddiriedolaeth Gofalwyr Gogledd Cymru drwy'r 12 mis diwethaf, yn darparu cymorth drwy eu gwybodaeth a'u profiad, a rhannu eu sgiliau i sicrhau bod y penderfyniadau gorau'n cael eu gwneud dros y sefydliad ac i ofalwyr. Roedd hi'n bleser mawr gen i weld bod Michael Boyle wedi penderfynu ail ymuno â ni eleni. Rydym bob amser yn chwilio am ragor o aelodau i wella'r Bwrdd, a byddem yn annog unrhyw un sy'n chwilio am gyfle gwobrwyol ac sydd wedi bod yn ofalwr eu hunain neu sydd â phrofiad mewn cyllid, adnoddau dynol, y gyfraith neu farchnata, i gysylltu er mwyn canfod rhagor am y gofynion ar gyfer bod yn Ymddiriedolwr. I mi'n bersonol, rydw i'n caru bod yn rhan o'r Ymddiriedolaeth Gofalwyr a fydd yn dathlu ei phen-blwydd yn 50 y flwyddyn nesaf. Roeddwn i'n rhan o'r broses o sefydlu'r Cynllun cyntaf yng Nghymru, yn Sir y Fflint, yn 1980 a dydw i erioed wedi edrych yn ôl! Felly beth am ymuno â ni ar gyfer y 50 nesaf!

### ALISON JONES - PRIF SWYDDOG GWEITHREDOL (2012-presennol)



Y llynedd, roeddem yn dal i adeiladu ar ein gwasanaethau yn dilyn y pandemig er mwyn darparu amrywiaeth o wasanaethau i ofalwyr di-dâl ledled Gogledd Cymru a Cheredigion, yn cynnwys gofal seibiant traddodiadol, cymorth grŵp, gwybodaeth a chyngor.

Rwy'n ddiolchgar iawn fy mod yn cael cymorth da gan Fwrdd Ymddiriedolwyr arloesol a deallus, yn arbennig ein Cadeirydd, Rita Jones, sy'n cynnig cyngor doeth.

Rwy'n ddiolchgar i'n tîm swyddfa bychan ond effeithlon, sy'n llwyddo i'n cadw ni'n gytbwys, wedi ein cefnogi'n abl iawn gan ein cyfrifydd. Yn olaf, hoffwn ddiolch i'n Gweithwyr Cymorth i Ofalwyr ardderchog, sy'n darparu ein gwasanaethau i ofalwyr di-dâl, a nhw yw wyneb ein sefydliad. Maen nhw'n gwneud i mi deimlo'n falch iawn ohonynt bob dydd. Rwy'n obeithiol y byddwn yn parhau i gynnig cymorth i ofalwyr di-dâl drwy'r hinsawdd bresennol o ansicrwydd ac yn helpu mewn rhyw ffordd i ostwng y pethau sy'n achosi straen iddynt.

## DYLAI SEIBIANT FOD YN HAWL NID YN FOETH

O ganlyniad i Covid 19, mae'n ymddangos bod gofalwyr di-dâl yn cael rhywfaint o'r gydnabyddiaeth y maen nhw'n ei haeddu o'r diwedd, wrth i Lywodraeth Cymru wneud datganiad cyhoeddus ac addo mwy o arian i gefnogi gofalwyr di-dâl:

Ysgrifennwyd hyn gan y **Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**:

'*Arweiniodd y pandemig at ymwybyddiaeth well a mwy o werthfawrogiad gan y cyhoedd o weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol, ond dylai'r gwerthfawrogiad hwnnw ymestyn i ofalwyr di-dâl—heb eu cefnogaeth hwy, byddai'r pwysau ar system iechyd a gofal cymdeithasol Cymru wedi bod hyd yn oed yn fwy dwys.*

*I lawer o bobl, mae cefnogi ffrindiau, teuluoedd a chymunedau'n gallu rhoi teimlad o lesiant iddynt. I eraill, mae cyfrifoldebau gofalu'n gallu cael effaith fawr ar bob agwedd o'u bywydau ac mae angen cymorth ychwanegol arnynt i reoli gofynion y rôl.*

*Mae gennym oblygiad moesol a chyfreithiol i gefnogi pobl sy'n darparu lefelau sylweddol o ofal neu sy'n cydbwyso gofal ochr yn ochr ag ymrwymiadau arwyddocaol eraill fel diweithdra neu addysg. Yn foesol oherwydd ein hymrwymiad i lesiant pawb yng Nghymru. Yn gyfreithiol oherwydd bod hawliau gofalwyr wedi eu cynnwys yn y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.'*

Yn Ymddiriedolaeth Gofalwyr y DU mae'r Princess Royal Respite Fund for Carers yn weithredol erbyn hyn. Crëwyd y gronfa i sicrhau ariannu tymor hir i wasanaethau seibiant yr Ymddiriedolaeth Gofalwyr a'i hamcan yw codi £3 miliwn gan amrywiaeth o roddwyr yn cynnwys ymddiriedolaethau, sefydliadau, cefnogwyr corfforaethol ac aelodau'r cyhoedd.

Ei Huchelder y Dywysoges Frenhinol yw Llywydd yr Ymddiriedolaeth Gofalwyr, a dywedodd: ***'Rwyf wrth fy modd gyda'r fenter newydd hon. Bydd yn codi arian ar gyfer rhywbeth sy'n hynod o bwysig i ofalwyr — y gallu i gymryd seibiant. Efallai fod cael seibiant yn swnio'n beth syml, ond yn ystod fy nghysylltiad o 30 mlynedd gyda'r Ymddiriedolaeth Gofalwyr, mae un peth wedi fy nharo fi bob tro wrth siarad am ofalwyr, sef y pwysigrwydd y maen nhw'n ei gysylltu â chael ychydig amser i ffwrdd o ofalu, a'r gwahaniaeth y gall hynny ei wneud i'w hiechyd a'u lles.'***

Yn Ymddiriedolaeth Gofalwyr Gogledd Cymru credwn fod yr angen am egwyliau seibiant wedi eu hariannu'n gywir i ofalwyr yn fwy angenrheidiol nag erioed. Nid gwyliau yw'r egwyliau hyn, maen nhw'n anghenraid sylfaenol, yn helpu gofalwyr di-dâl i adennill eu hegni a'u brwdfrydedd er mwyn iddynt allu parhau a'u rôl ofalu.

I ofalwyr sy'n darparu gofal bob awr o'r dydd a'r nos heb unrhyw dâl, mae egwyl yn **gwbl angenrheidiol**. Mae'n gyfle i ofalwyr gael rhywfaint o amser a lle iddynt eu hunain er mwyn iddynt allu adennill eu hegni. Mae'n hanfodol i'w lles corfforol a meddyliol. A hebddo, ni allai llawer o ofalwyr barhau i ofalu. Byddwn yn parhau i hyrwyddo'r angen am wasanaethau egwyl gymaint ag gallwn i'r rhai sy'n gwneud y penderfyniadau, y comisiynwyr, yr arianwyr grant, a'n rhanddeiliaid i gyd.

## PROSIECTAU NEWYDD AR GYFER BLWYDDYN NEWYDD

## Y GRONFA GYMORTH I OFALWYR

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

Fel y cyfeiriwyd ato ar y dudalen flaenorol, roeddem wrth ein boddau bod Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau rhagor o gymorth i ofalwyr di-dâl yng Nghymru. Cafodd y Gronfa Gymorth i Ofalwyr ei sefydlu'n wreiddiol gan LlC mewn ymateb i'r pandemig ym mis Hydref 2020 i helpu gofalwyr gyda heriau ariannol COVID-19. Addawyd £1m mewn ymateb i'r dystiolaeth gynyddol oedd yn dangos bod gofalwyr di-dâl yn cael trafferth ymdopi'n ariannol oherwydd costau gofalu di-dâl fel biliau ynni uchel i gadw eu cartrefi'n gynnes, costau teithio i apwyntiadau ysbyty, offer arbenigol neu ofynion dietegol.

Mae'r Gronfa wedi cael ei hymestyn i mewn i 2025 erbyn hyn, gyda buddsoddiad o £4.5m gan Lywodraeth Cymru a wneir mewn taliadau o £1.5m bob blwyddyn. Yn Ymddiriedolaeth Gofalwyr Gogledd Cymru mae dwy flynedd o ariannu wedi'i ddyrannu i ni a gall gofalwyr yng Ngogledd Cymru wneud cais am grantiau unigol o hyd at £300 i dalu am fwyd, eitemau'r cartref, nwyddau gwyn ac eitemau electronig. Dyma sut yr ydym wedi gwario'r arian a roddwyd inni eleni (o fis Tachwedd 2022 hyd fis Mawrth 2023):

**176 o ofalwyr**

wedi derbyn grant uniongyrchol

**£58,000**

wedi'i ddosbarthu mewn grantiau

Roedd y grantiau'n cynnwys:

**98 Taleb siopa**
**32 Cais am offer TG**
**20 Eitem arbenigol/synhwyraidd**
**9 Ffwrn microdon/Coginiwr araf**
**1 Cit ac Esgidiau Pêl-droed**
**a llawer mwy!**

Mae'r gronfa hefyd wedi ein galluogi ni i gyflogi tri Swyddog Lles ledled Gogledd Cymru sy'n darparu cymorth gwerthfawr. Mae eu rolau'n cynnwys cyfarfod â gofalwyr di-dâl yn y gymuned ac yn eu cartrefi eu hunain i gynnig cymorth a chyngor ar lenwi ffurflenni grant y Gronfa Gymorth i Ofalwyr yn ogystal â'u cefnogi nhw fel gofalwyr di-dâl a'u cyfeirio nhw at wasanaethau eraill sydd ar gael iddynt yng Ngogledd Cymru..

Maen nhw wedi helpu gofalwyr i gwblhau gwiriadau budd-dal a'u cefnogi i hawlio arian ychwanegol e.e. credydau pensiwn, lwfans gweini. Maen nhw hefyd newydd ddechrau sefydlu grwpiau cymorth cymheiriaid i ofalwyr di-dâl ledled yr ardal, gan weithio ar y cyd â sefydliadau statudol a thrydydd sector eraill. Dros yr amser byr y maen nhw wedi bod yn eu swyddi, maen nhw wedi cefnogi mwy na 800 o ofalwyr di-dâl.

# PROSIECTAU NEWYDD I FLWYDDYN NEWYDD

## CANOLFANNAU DEMENTIA

Yn dilyn llwyddiant enfawr ein Canolfan Dementia beilot ym Mochdre, Bae Colwyn, cawsom ein comisiynu ym mis Ebrill 2022 gan BIPBC a'r chwe awdurdod lleol yng Ngogledd Cymru i gyflwyno'r gwasanaeth Canolfan Dementia ledled Gogledd Cymru.

Meddai Arweinydd y Prosiect, **Gwenno Davies:** 'Roeddem yn gwybod y byddai model gofal y Ganolfan Dementia yn llwyddiant am ein bod wedi ein llethu gan y diddordeb a ddangoswyd pan agorwyd ein Canolfan beilot y flwyddyn flaenorol. Daethom yn brysur bron ar unwaith a dydyn ni erioed wedi edrych yn ôl.

Cafodd y Ganolfan Dementia ei datblygu ar y cyd â phobl sy'n byw gyda Dementia a'u teuluoedd felly roeddem yn gwybod ei fod yn rhywbeth yr oedd pobl ei eisiau.  Rydym yn esblygu drwy'r amser wrth i'r gwasanaeth symud yn ei flaen, ac rydym bob amser yn gwrando ar awgrymiadau newydd am welliannau.'

Cafodd y Canolfannau Dementia eu comisiynu yn rhan o'r **Llwybr Cefnogi Cof** newydd ledled Gogledd Cymru.

Mae'r llwybr yn cynnwys 4 sefydliad sy'n cydweithio i gefnogi pobl sy'n byw gyda dementia, eu gofalwyr, teuluoedd neu gyfeillion, ac mae'n cael ei ariannu hyd fis Mawrth 2025:

- **Cymdeithas Alzheimer:** Cymorth Cyn ac ar ôl Diagnosis
- **Cynnal Gofalwyr a NEWCIS:** Cymorth i Gleifion yn yr Ysbyty
- **Ymddiriedolaeth Gofalwyr GC:** Canolfannau Dementia

Dementia North Wales
Memory Support Pathway

Yn ein blwyddyn gyntaf, llwyddom i sefydlu pedair Canolfan—Môn, Conwy, Sir y Fflint a Wrecsam gyda Chanolfannau ategol mewn ardaloedd mwy gwledig o Wynedd a Sir Ddinbych. Cafodd staff newydd sydd â phrofiad o gymorth dementia eu penodi i'r tîm i wella'r gwasanaeth. I weld lle mae eich Canolfan agosaf, cysylltwch â ni: 01492 542212.




Ch-Dde: Lia Williams (Dementia Actif), Gwenno Davies (Arweinydd Prosiect) Manon Davies, (Swyddog Lles) Ffion Travis (Cydgysylltydd Dementia) mewn achlysur lansio Canolfan.



Gwenno yn goruchwylio'r datblygiad un o'n Canolfannau Dementia newydd eu sefydlu..

## CANLYNIADAU'R AROLWG CWSMERIAID

Cafodd ein Harolwg Cwsmeriaid 2022-23 ei anfon at ein defnyddwyr gwasanaeth ym mis Chwefror 2022. Hoffem ddiolch i bob gofalwr am gymryd yr amser i gwblhau'r holiadur a'i ddychwelyd atom. Mae'r Arolwg Cwsmeriaid yn gyfrwng pwysig i'n helpu ni i ganfod sut mae pobl yn teimlo am y gwasanaethau a ddarparwn, ac i weld lle gallwn wella.

Cafodd canlyniadau ein harolwg eu gwerthuso'n annibynnol gan **Nicola Robinson,** Rheolwr Rheoleiddiol a Sicrhau Ansawdd, sy'n gweithio'n lleol yn Sir Ddinbych, Gogledd Cymru. Dyma'r negeseuon allweddol a gawsom yn ôl:

- Roedd yr atebion i'r cwestiwn '*Pa wahaniaeth ydyn ni'n ei wneud i'r person rydych yn gofalu amdanynt?'* yn hynod o gadarnhaol; sgoriwyd 10 gan bob ymatebwr bron a ddywedodd bod y gwasanaeth yn gwneud gwahaniaeth enfawr, i'r gofalwr ac i'r person sy'n derbyn y gofal.
- Dywedodd nifer o'r ymatebwyr bod y person y maen nhw'n gofalu amdanynt yn edrych ymlaen at yr ymweliadau, a bod y bobl sy'n eu cefnogi nhw'n dechrau cael eu hystyried yn ffrindiau.
- Atebodd nifer o ymatebwyr bod y gallu i gael amser ar wahân yn gwella eu perthynas gyda'u hanwyliaid.
- Cafwyd cyfradd ddychwelyd arolygon o 70% - diolch eto!


Crynhowyd hyn gan yr Adolygwr:

*Y casgliad cyffredinol a dynnwn o'r ymatebion i'r arolwg yw bod defnyddwyr y gwasanaeth yn hapus iawn gydag ansawdd y gofal a ddarperir gan y sefydliad. Mae'n amlwg bod CTNW yn penodi staff o safon uchel sy'n cael eu gwerthfawrogi, ac sy'n achubiaeth i'r bobl a gefnogant yn aml iawn.*

*Mae synnwyr amlwg o unigrwydd ac anobaith, ynghyd â blinder corfforol a meddyliol mawr ymysg gofalwyr, y mae llawer ohonyn nhw hefyd yn oedrannus a/neu'n dioddef iechyd gwael. Byddai nifer o'r bobl hyn yn hoffi i'r gwasanaeth hwn gael ei ymestyn, naill ai drwy gael mwy o oriau o gymorth neu drwy gael cymorth gwasanaethau ychwanegol, ond roedd y mwyafrif yn gwerthfawrogi bod CTNW wedi eu cyfyngu gan yr adnoddau sydd ar gael. Mae teimlad cyffredinol o rwystredigaeth nad oes mwy o gymorth ar gael o ran gofal, ond cydnabyddir hyn fel problem generig o fewn y sector gofal. Yn anffodus, mae hon yn thema sydd wedi codi dro ar ôl tro mewn arolygon blaenorol ac yn yr hinsawdd economaidd sydd ohoni, mae hyn yn annhebygol o wella. Rwy'n atseinio'r sylwadau yng nghasgliadau'r arolwg blaenorol bod angen i'r sector cyhoeddus fynd i'r afael â hyn a bod angen i'r comisiynwyr lobïo'r llywodraeth i gael rhagor o gymorth ac i geisio canfod atebion i'r argyfwng cydnabyddedig yn y sector gofal.*

*Mae'r unig feirniadaethau neu awgrymiadau am welliant a gafwyd gan un neu ddau o'r ymatebwyr yn ymwneud â diffyg cyfathrebu â'r gofalwr am unrhyw newidiadau i'r trefniadau er bod y rhain yn sicr yn y lleiafrif am fod nifer o'r ymatebwyr wedi canmol y cyfathrebiad a ddarperir. Rhaid sicrhau bod unrhyw newidiadau mewn trefniadau sydd angen hyblygedd ym mharhad y gofal yn cael eu cyfathrebu'n gywir i'r defnyddwyr gwasanaeth.*

## RHODDION




Diolch yn fawr i'r Seiri Rhyddion am eu rhodd hael o £200. Yn y llun uchod mae'r siec a dderbyniwyd gan y Cydgysylltwyr Dementia, Karen Huxley a Jade Owens

Diolch o galon i bob un ohonoch a roddodd rodd i ni eleni ac am ein holl gyfraniadau er cof. Fel elusen rydym yn croesawu rhoddion i'n galluogi ni i gynnig cymorth ychwanegol ac angenrheidiol iawn i ofalwyr di-dâl ledled Gogledd Cymru. Heblaw ein bod yn nodi fel arall, rydym yn sicrhau bod unrhyw rodd a dderbyniwn yng Ngogledd Cymru'n cael ei gwario yn y sir y daeth ohoni.

Mae pob ceiniog yn gwneud gwahaniaeth i ni. Yn ogystal â'r rhodd uchod, hoffem hefyd ddiolch i'r cefnogwyr a ganlyn am eu cyfraniadau hael:

**CYNGOR TREF LLANGEFNI, SIR FÔN: £300.00**
**YSGOL LLANFAIRPWLL, SIR FÔN: £364.00**
**FFAIR GREFFTAU'R NADOLIG, ROWEN, CONWY: £300.00**
**ELUSEN CYFRINFA PENARLÂG, SIR Y FFLINT: £200.00**
**RHODD GAN UNIGOLYN AR GYFER ANRHEGION NADOLIG I BLANT: £200.00**
**RHODD Y GANOLFAN DEMENTIA: £543.24**

Rydym hefyd yn derbyn rhoddion drwy PAYPAL y gallwch fynd iddo drwy ymweld â'n gwefan. Eleni cododd ein rhoddion PAYPAL: **£689.60.** Unwaith eto,
**DIOLCH YN FAWR IAWN**

.

# GWASANAETHAU PLANT A PHOBL IFANC

GAN EVIE ROBERTS—CYDGYSYLLTYDD PLANT




Cawsom flwyddyn brysur arall, yn parhau ein cymorth 1-1 gyda phlant a theuluoedd ond hefyd yn cynnal cynifer o grwpiau a digwyddiadau ag y bo modd. Cafwyd Gweithgaredd Glanhau Traeth newydd eleni (llun uchod). Roeddem yn ddigon ffodus i gael tywydd da a thraeth gwag braf! Ymysg y gweithgareddau eraill cafwyd gwersi coginio, sesiynau ymlacio'r synhwyrau, picnics yn y parc a threialwyd Clwb Plant Bach i riant ofalwyr hefyd.




Cawsom barti Nadolig hyfryd fis Rhagfyr lle bu'r plant yn gwneud crefftau Nadolig, chwarae gemau a chwrdd â Siôn Corn. Roedd digonedd o frechdanau a chacennau inni oll eu mwynhau. Roeddem mor ddiolchgar am ein rhodd Nadolig oedd wedi ein galluogi ni i wneud y parti'n fwy o hwyl a mwy arbennig nag erioed i'r plant i gyd. Mae digonedd o le gennym felly roeddem yn ffodus iawn, digon o le i gynnal gemau a gweithgareddau, ond lle i gael amser tawel hefyd.



## FFARWELIO A CHROESAWU

Mae dweud ffarwél wrth staff sy'n gadael y sefydliad yn beth trist bob tro, ac eleni ymadawodd ein Gweinyddwr Cyllid, Debbie Palmer ym mis Ionawr 2022. Roeddem yn ffodus i allu penodi Esther Sankey-Noor i'r swydd ym mis Mawrth ac mae hi wedi dod â chyfoeth o brofiad, gwybodaeth a sgiliau i'n prosesau TG a chyllid. Mae hi wedi bod yn aelod gwerthfawr o Dîm y Swyddfa. Hefyd ffarweliwyd â'r Gweithwyr Cymorth Gofalwyr Val Morris (Sir Ddinbych), John Osbon (Wrecsam/Sir y Fflint) a Bernice Walker (Ceredigion) y bydd chwith mawr ar eu holau.

Dros y flwyddyn, mae wedi bod yn bleser mawr gennym groesawu Gweithwyr Cymorth Gofalwyr Newydd Susan Bradford, sy'n gweithio ym Môn, Rebecca Middlehurst, Ceredigion, ac Angela Morgan yng Nghonwy.  Rydym hefyd wedi croesawu ein tri Swyddog Lles i'r sefydliad, Bryan Helsby ar gyfer Gogledd Ddwyrain Gogledd Cymru, Kate Wilkinson ar gyfer Conwy a Sir Ddinbych, a Manon Roberts ar gyfer Gogledd Orllewin Cymru.  Maen nhw wedi gwella'r gwasanaethau y gallant eu cynnig i ofalwyr di-dâl ac edrychwn ymlaen at weld eu cymorth yn cynyddu dros y flwyddyn sy'n dod.

## EDRYCH YMLAEN AT Y FLWYDDYN NESAF

Rydym wedi mwynhau blwyddyn brysur iawn, yn sefydlu gwasanaethau newydd ac yn chwilio drwy'r amser am gyfleoedd newydd a fydd o fudd i Ofalwyr. Flwyddyn nesaf, rydym yn gwneud cais am brosiect wedi'i ariannu gan fenter newydd gan Lywodraeth Cymru— **Y Cynllun Egwyliau Byr i Ofalwyr Di-dâl**.  Mae Llywodraeth Cymru'n buddsoddi £9m dros dair blynedd i gynyddu cyfleoedd i ofalwyr di-dâl gymryd hoe o'u rôl ofalu. Mae egwyl fer o dan y cynllun hwn wedi'i ddiffinio fel '*gwasanaeth, cymorth neu brofiad sy'n helpu gofalwr di-dâl i gymryd amser i ffwrdd o'u cyfrifoldebau gofalu. Gallai fod yn gyfle i fynd i'r gampfa, dysgu sgil newydd neu ymlacio drwy fynd am dro neu ddarllen llyfr. Gallai egwyl fer hefyd fod yn drip i ffwrdd o'r cartref gyda theulu neu gyfeillion a gallai hefyd gynnwys treulio amser gyda'r person y maen nhw'n eu cefnogi ac yn gofalu amdanynt'.* Byddwn yn clywed a yw ein cynnig prosiect wedi llwyddo ym mis Ebrill 2023.

Un ffocws mawr y flwyddyn nesaf fydd datblygu gwasanaeth y Canolfan Dementia ymhellach, gyda'r nod o  sefydlu Canolfan barhaol ymhob ardal awdurdod lleol (chwe Chanolfan i gyd), i ganiatáu i bobl gyda dementia, eu gofalwyr a'u teuluoedd alw i mewn yn lleol i gael cefnogaeth.

Rydym hefyd yn cynnig ychwanegu at ein Tîm Llesiant drwy gyflogi Swyddog Llesiant Rhiant Ofalwyr (wedi ei ariannu gan Lloyds TSB) i ddarparu cymorth yn benodol i Riant Ofalwyr a'u teuluoedd yn ardaloedd Sir y Fflint, Sir Ddinbych a Chonwy yng Ngogledd Cymru.

Rydym yn edrych ymlaen yn fawr at gwblhau ein proses asesu **ISO9001**. Mae ISO9001 yn ddyfarniad ansawdd allanol sy'n mesur y gallu i ddarparu gwasanaethau'n gyson sy'n ateb gofynion cwsmeriaid a gofynion statudol a rheoliadol—dyma safon system rheoli ansawdd mwyaf adnabyddus y byd.  Ym mis Chwefror aethom drwy Gam 1 yr Archwiliad, a bydd ein hasesiad terfynol yn digwydd ym mis Mehefin 2023.

# AC YN OLAF, DRAW ATOCH CHI:

Rydym bob amser yn cadw'r gair olaf ar eich cyfer chi. Dyma rai o'r sylwadau a'r adborth rydym wedi ei dderbyn dros y 12 mis diwethaf:

- Dw i ddim yn gwybod beth fyddwn i'n ei wneud heb yr Ymddiriedolaeth Gofalwyr.
- Mae'n rhoi tawelwch meddwl mawr i mi allu gadael fy chwaer gyda rhywun sydd mor alluog ac sy'n deall
- Allwn i ddim dychmygu bod heb y gwasanaeth yma nawr.
- Yr Ymddiriedolaeth Gofalwyr yw'r unig ffynhonnell y gallwn ddibynnu arni am gymorth a chefnogaeth. Mae ein Gweithiwr Cymorth Gofalwyr yn codi ein calonnau, mae hi mor garedig a byddem ar goll yn llwyr heb ei gofal a'i chefnogaeth.
- Os byddwn i mewn sefyllfa lle na fyddwn i byth yn gallu gadael y tŷ (os na fyddwn i'n derbyn eich gwasanaeth chi), byddwn mewn cyflwr meddwl gwaeth nag ydw i ar hyn o bryd.
- Mae fy Ngweithiwr Cymorth Gofalwyr yn broffesiynol a gofalgar. Mae fy ngwraig yn caru'r cwmni a gallaf fwynhau ychydig oriau o wybod bod fy ngwraig yn ddiogel, dedwydd a hapus.
- Am fod fy nheulu i gyd yn gweithio a dim ond yn gallu fy helpu gyda'r nosau ac ar y penwythnosau, rwy'n teimlo y byddwn yn cael trafferth heb y gwasanaeth yma.
- Mae'n rhoi amser i mi ar fy nghyfer i fy hun heb boeni am fy ngŵr.
- Mae'r ffaith fy mod i'n gwybod y bydd hi yma bob wythnos yn beth mawr, yn emosiynol ac mewn llawer o ffyrdd eraill
- Mae fy ngŵr yn cael ei annog i chwerthin a chwblhau tasgau. Diolch yn fawr iawn gen i!
- Heb y gwasanaeth yma byddai fy lefelau straen a phwysedd gwaed yn uwch.
- Byddai mwy o oriau'n gwneud popeth yn berffaith.
- Er bod teulu a ffrindiau'n galw yn aml, mae gwybod bod gen i amser penodol pan fyddaf yn gallu mynd allan o gymorth mawr i mi.
- Mae'r gwasanaeth hwn wedi gwneud gwahaniaeth sylweddol i'm mywyd i. Mae'r oriau rheolaidd bob wythnos a'r amser ychwanegol ar gyfer apwyntiadau meddygol yn werthfawr iawn.
- Mae ein Gweithiwr Cymorth Gofalwyr yn berffaith ar gyfer ei thasg, yn hynod o gwrtais ac yn dangos empathi mawr.
- Mae gofalu am rywun yn waith caled iawn. Byddai gwneud hyn yn llawn amser heb rywfaint o gymorth bron yn amhosib.
- Byddai rhagor o oriau'n gadael i mi fwynhau fy hobi.
- Mae'r gwasanaeth yn rhoi'r cyfle i mi gadw apwyntiadau ac ati a hyd yn oed gael paned o goffi bob hyn a hyn!!
- Fel gofalwr, mae'n gwneud gwahaniaeth gwerthfawr ac yn gadael i mi gwrdd â ffrindiau, mynd i siopa neu fynd am dro.
- Os byddai'r cymorth yn dod i ben byddai'n cael effaith sylweddol arnom. Mae gallu mynd allan wedi codi calonnau'r ddau ohonom. Rydw i'n teimlo'n llawer gwell o gael eich gwasanaeth, mae'n gostwng straen a phryder.